


HARLECH
EST FOODSERVICE 1972
GWASANAETH BWYD

# ADRODDIAD ESG 2024/25




# Neges gan deulu Foskett a’r tîm arwain

Fwy na hanner canrif ers ei sefydlu, mae Gwasanaeth Bwyd Harlech Foodservice yn parhau i fod yn gwmni annibynnol teuluol. Cawsom ein gwobrwyo am ansawdd ein gwasanaeth i gwsmeriaid ac mae cyrraedd safonau rhagorol wrth galon pob dim a wnawn.

Mae’r cwmni’n cyflogi mwy na 250 aelod o staff llawn amser, yn gwerthu mwy na 4,000 o wahanol gynhyrchion ac yn dosbarthu nwyddau ym mhob rhan o Gymru, Gogledd Orllewin Lloegr a Gorllewin Canoldir Lloegr.

Rydym yn frwdfrydig dros bob dim a wnawn, ac wedi ymrwymo i gynnig y safonau uchaf i’n holl gwsmeriaid wrth ddosbarthu bwyd wedi ei rewi, bwyd wedi ei oeri, ffrwythau a llysiau ffres, nwyddau groser, danteithion, hufen ia, nwyddau glanhau ac eitemau defnydd untro.

Mae Gwasanaeth Bwyd Harlech Foodservice yn cydweithio’n agos ag arlwywyr, cogyddion a rheolwyr yn y sectorau cyhoeddus, iechyd ac addysg.

Rydym yn delio â phob agwedd ar ddarparu bwyd, boed hwnnw’n wasanaeth sy’n cael ei drefnu’n fewnol neu’n gyfrifoldeb arlwywyr allanol. Rydym yn danfon bwyd i’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHS) ac ysbytai preifat, adrannau llywodraeth, prydau ysgol mewn ysgolion gwladol ac annibynnol, cartrefi nyrsio, pryd ar glud, gwasanaethau lles, yr heddlu, y gwasanaeth tân, y Weinyddiaeth Amddiffyn a gwasanaethau arlwyo ar awyrennau a llongau.

Ein nod yw cwrdd ag anghenion ein holl gwsmeriaid a chael ein gweld fel un o’r cyflenwyr gwasanaethau bwyd mwyaf dibynadwy ac effeithlon. Un galwad ffôn, un anfoneb, ac un ymweliad i ddanfon yr archeb gyfan.

Fe’n dewiswyd yn Gyfanwerthwr Bwyd y Flwyddyn yn The Caterer’s Supplier Awards 2025 – rhywbeth yr ydym yn arbennig o falch ohono.

Roeddem hefyd yn ffeinal Cyfanwerthwr Rhanbarthol y Flwyddyn yn y Grocer Gold Awards 2025 a chawsom ein henwebu am wobr Cyflenwr Rhagorol y Flwyddyn yn seremoni’r LACA Awards for Excellence 2025.

Mae Gwasanaeth Bwyd Harlech Foodservice hefyd yn aelod o’r corff prynu cydweithredol Country Range Group (CRG) a’r Foodservice Packaging Association, lle ceir trafodaeth frwd gyda chynhyrchwyr bwyd ynghylch sut y gallant leihau’r deunydd pecynnu a lapio a ddefnyddir i warchod a dosbarthu bwyd.

**Y tîm arwain**




# Crynodeb: Taith ESG Gwasanaeth Bwyd Harlech Foodservice – ymdrech barhaus

Ers 1972 rydym wastad wedi ceisio darparu gwasanaethau o ansawdd uchel tra'n parchu'r cymunedau a'r amgylcheddau lle byddwn yn gweithredu.

Enghraifft o hyn yw ein strategaeth o sefydlu perthynas gadarn â'n rhanddeiliaid , ac fe wnawn hynny mewn amrywiol ffyrdd.

I'n helpu i gyrraedd ein targed sero net erbyn 2050, rydym wedi buddsoddi mewn cerbydau carbon effeithlon, gosod paneli solar ar do'n pencadlys yng Nghricieth a chwblhau astudiaeth gyda'r nod o ddefnyddio gwres gwastraff y broses o rewi bwyd i gynhesu dŵr.

Rydym hefyd wedi ceisio gwella ansawdd bywydau pobl drwy godi arian at achosion da a noddi nifer fawr o elusennau, yn cynnwys Tŷ Gobaith Hope House, Y Sefydliad Iechyd Meddwl ac Elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

Mae ein gweithgareddau eraill yn cynnwys cefnogi clybiau pêl droed cymunedol a darparu bwydydd, nwyddau ymolchi a danteithion blasus i ysbytai, banciau bwyd ac ysgolion.

Rydym wedi helpu'r gwaith o redeg sawl digwyddiad, yn cynnwys Gwobrau Twristiaeth Go North Wales a digwyddiadau a drefnwyd gan Sefydliad Brenhinol y Badau Achub (RNLI) ac Achub o'r Mynyddoedd.

Yn ogystal â'r pethau hyn, rydym wedi meithrin cysylltiadau â'r byd addysg er mwyn cyrraedd y genhedlaeth nesaf.

Buom yn cefnogi'r ymgyrch "Eat Them to Defeat Them" i annog plant oed cynradd ym mhob rhan o Sir Amwythig i fwyta rhagor o lysiau maethlon.

Gyda myfyrwyr yng Ngwynedd a Sir Ddinbych trefnwyd 'Bwyd a Hwyl' – Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol i annog byw'n iach, trwy goginio pizzas.

Mewn digwyddiad NFU 'O'r Fferm i'r Fforc' ar fferm Ynysgain, Llanystumdwy, bu plant ysgol lleol yn dysgu nad oedd y cynhyrchion caws a ddanfonwyd gennym i ysgol y pentref ond wedi teithio 11 o filltiroedd bwyd.

Yn ogystal â chefnogi pobl ifanc ar leoliadau gwaith (placements) neu waith tymhorol, bu ein staff warws yn gweithio tuag at NVQ lefel dau mewn tasgau warws a dosbarthu, a dygwyd sylw at gyfleoedd hyfforddi pellach mewn cynhadledd Buddsoddi mewn Sgiliau: Hybu Twf.

Un o'n blaenoriaethau yw rhoi i bobl y sgiliau angenrheidiol i gael gwaith cyflogedig, ac felly gwnaed rhodd o fwyd a diod i'r rhai oedd yn dilyn cyrsiau addysg a chyflogaeth ym Mharc Coffa Ynysangharad, Pontypridd.

# Amgylcheddol

Rydym yn cymryd camau pendant i leihau ein ôl troed carbon yn unol â dymuniad uchelgeisiol Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyrraedd y targed sero net erbyn 2050.

Mae'r mesurau a gyflwynwyd gennym yn cynnwys:

- Gosod unedau aerdymheru (air conditioning) sydd hefyd yn darparu gwres er mwyn dileu ein dibyniaeth ar nwy
- Cynnal astudiaeth i weld sut y gallwn ailddefnyddio gwres o'n unedau rhewi newydd i gynhesu dŵr ar gyfer ein pencadlys
- Ailgylchu gwastraff yn barhaus gan osgoi ei yrru i safle tirlenwi lle bo modd
- Defnyddio a chwilio'n barhaus am y cerbydau cludo mwyaf carbon effeithiol
- Astudio'r posibilrwydd o ddiweddaru ein fflyd o gerbydau fel eu bod oll yn gerbydau trydan


Yn ogystal â'n mesurau ni ein hunain, rydym hefyd yn aelod o'r corff prynu cydweithredol Country Range Group (CRG) a chymdeithas fasnach y Foodservice Packaging Association (FPA).




Drwy fod yn aelod o'r rhain, rydym yn deall yn well pa fesurau sydd eu hangen i fod yn fwy cynaliadwy ym mhob rhan o'n cadwyn gyflenwi, er enghraifft drwy leihau'r deunydd pecynnu a lapio a ddefnyddir ar gyfer gwarchod a dosbarthu bwyd.

Rydym hefyd, ers 2017, wedi cyrraedd Lefel Dau, Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – y Green Dragon Environmental Standard.  Rhoddir y gydnabyddiaeth hon i sefydliadau sy'n dangos rheolaeth effeithiol dros faterion amgylcheddol ac sy'n cymryd camau i ddeall, monitro a rheoli eu heffaith ar yr amgylchedd.

**Ein Cynllun Lleihau Carbon i gyrraedd Sero Net erbyn 2050 - Rhagamcan vs Gwirioneddol**





| 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 | 2035 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21056 | 17832 | 22819 | 22726 | 22044 | 21162 | 20316 | 19503 | 17552 | 15798 | 14218 | 12796 | 11517 | 9214 | 6449 |
| 21056 | 17832 | 22819 | 22726 | | | | | | | | | | | |

| 2036 | 2037 | 2038 | 2039 | 2040 | 2041 | 2042 | 2043 | 2044 | 2045 | 2046 | 2047 | 2048 | 2049 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5159 | 4127 | 3301 | 2641 | 2113 | 1690 | 1352 | 1082 | 865 | 692 | 554 | 443 | 354 | 284 | 0 |


## Cwmpas Un a Chwmpas Dau

Mae ein data'n dangos ffrwyth ein hymdrechion i leihau ein allyriadau carbon yn glir. Drwy gadw llygad barcud ar ein heffaith ar yr amgylchedd, llwyddwyd i leihau bron i 10% ar allyriadau CO2e ein cerbydau HGV rhwng 2023 a 2024.

### Canran Tunelli CO2e **2023**




### Canran Tunelli CO2e **2024**




O edrych ar drafnidiaeth a nwy (Cwmpas Un), trydan (Cwmpas Dau) ac allyriadau nwy tŷ gwydr anuniongyrchol (Cwmpas Tri), bu gostyngiad o 22,818.81 tunnell CO2e yn 2023 i 22,726.06 tunnell CO2e yn 2024.

Defnyddiwyd y Cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (Standard Industrial Classification - SIC) i fesur ein allyriadau CO2e anuniongyrchol wrth ymwneud â chyflenwyr eraill. Trwy weithio'n agos â'n cyflenwyr i gydgasglu gwybodaeth am bob ymgyrch a gweithred byddwn nid yn unig yn lleihau ein allyriadau carbon ond hefyd yn adrodd amdanynt yn well.


## Cwmpas Tri

Erbyn  2026/27, bydd raid darparu tystiolaeth Cwmpas Tri i rai cyrff cyhoeddus wrth dendro am waith sy'n werth mwy na £5 miliwn.

Tra bo Gwasanaeth Bwyd Harlech Foodservice eisoes yn gweithredu'r rhan fwyaf o'r gofynion hyn, mae ein dulliau monitro gofalus hefyd yn ein galluogi i fesur pa wahaniaeth a wnaed.

Amcangyfrifwn ein bod yn arbed 67 tunnell CO2e y flwyddyn oherwydd y ffordd y deliwn â'n prif ffynonellau gwastraff. Rydym hefyd yn osgoi anfon 14 tunnell arall i'w dirlenwi ac yn sicrhau fod pob gwastraff bwyd yn cael ei ddefnyddio i greu ynni mewn ffordd sy'n arbed defnyddio tanwydd ffosil.

**CO2e (kg) am bob gwerthiant (£) fesul blwyddyn**




| | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|
| CO2e kg am bob gwerthiant £ | 0.74 | 0.47 | 0.51 | 0.46 |
| % y gwahaniaeth | | -37.38% | 8% | -8% |

Mae defnyddio'r data hwn sy'n mesur y gost am bob gwerthiant wedi ein galluogi i roi gwybodaeth i'n cwsmeriaid yn y sector cyhoeddus y gallant ei ddefnyddio i ddangos eu taith hwythau tuag at sero net. Mae gwybod y gost am bob gwerthiant yn y modd hwn yn profi'n arf tu hwnt o werthfawr i helpu ein cwsmeriaid fesur eu hallyriadau CO2e.

Wrth inni anelu at gyrraedd sero net erbyn 2050, byddwn yn cadw golwg ar allyriadau ein cwsmeriaid i weld a ydynt hwy yn lleihau eu ôl troed carbon, sydd yn ei dro yn effeithio ar ein ffigyrau ni.







# Cymdeithasol

## Milltiroedd Bwyd

Rhoesom ffocws cryf iawn ar leihau cyn gymaint â phosibl ar ein milltiroedd casglu a danfon, gyda chynnydd mewn cludo nwyddau ar y daith yno a'r daith yn ôl (backhaul) a chasglu oddi wrth gynhyrchwyr gan ddefnyddio cerbydau eisoes in situ ar ben yr agenda.

### Milltiroedd cludo llwyth ar daith yno ac yn ôl




| | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm milltiroedd | 113213 | 142473 | 158086 |
| % y gwahaniaeth | 0 | 26% | 11% |

Rydym yn gweithio gyda nifer cynyddol o gyflenwyr o Gymru, gan amlygu ein dymuniad i barhau i hyrwyddo'r economi sydd o'n hamgylch, a'n hymgais i ddarparu'r cynnyrch gorau, o lle bynnag y daw.




I sicrhau ein bod yn glynu at ein haddewid i werthu cynnyrch o ansawdd uchel, rydym gyrru holiaduron rheolaidd at ein cyflenwyr. Mae'r holiaduron hynny'n asesu cydymffurfiad pob cwmni â'r gofynion rheoleiddio ac achredu, yn cynnwys:

- Y Roundtable on Sustainable Palm Oil – sy'n hyrwyddo twf a defnydd cynhyrchion olew palmwydd mewn ffordd gynaliadwy drwy bennu safonau byd eang
- Y cynllun Tractor Coch – sy'n ardystio a gwarantu safon nifer o gynhyrchion fferm o fewn i'r gadwyn fwyd
- Y Marine Stewarship Council (MSC) – ffordd o ddangos fod ffermydd pysgod yn dilyn yr arferion gorau ar gyfer pysgota cynaliadwy

Mae gennym ffocws ar bobl sy'n parhau trwy gydol gyrfa ein staff gyda chwmni Harlech, pa le bynnag y maent ar y siwrnai honno.

Wrth inni barhau i ehangu, rydym y falch o fedru cynnig swyddi da a boddhaus, yn cynnwys recriwtio tri prentis i ymuno â'n tîm gweithredu o fewn y 12 mis nesaf. Gan ddefnyddio'n profiad o redeg prentisiaethau, edrychwn ymlaen at gryfhau sgiliau aelodau newydd ein tîm.

Hefyd, mae 20% o'n staff o dros 200 wedi cael dyrchafiad o fewn y cwmni.

Uchafbwynt cyffrous oedd cael ein henwi gan y Sunday Times fel un o'r sefydliadau maint canolig gorau i weithio iddo.





## Cymunedol

Rhan annatod o ethos y cwmni yw rhoi rhywbeth yn ôl i'r cymunedau lle gweithiwn. Rydym wedi cyfrannu mwy na £50,000 i amrywiol achosion da ac elusennau, yn cynnwys:

- Codi £250 i Hope House Tŷ Gobaith mewn Expo Fwyd a chyflwyno 180 bag o ddanteithion blasus i blant gyda salwch terfynol
- Codi £300 at y Sefydliad Iechyd Meddwl i gefnogi rhai gyda heriau iechyd meddwl
- Codi arian allweddol i Elusen Ambiwlans Awyr Cymru
- Rhoi hufen ia i Ward Llynfor, Ysbyty Bryn Beryl Pwllheli i gadw cleifion a staff yn gyfforddus yn ystod tywydd eithafol o boeth
- Helpu naw o ysgolion Swydd Amwythig i ymuno â'r ymgyrch "Eat Them to Defeat Them" er mwyn annog plant oed cynradd i fwyta rhagor o lysiau
- Noddi hwyaden mewn Ras Hwyaid i godi arian i Ysbyty Countess of Chester, Caer
- Cyflwyno hamperi bwyd i amrywiol sefydliadau a chlybiau ar gyfer rafflau ac ymgyrchoedd codi arian
- Cyflwyno bwyd a nwyddau ymolchi i 10 o ysgolion Rhondda Cynon Taf ar gyfer 'siopau iard ysgol' sy'n rhan o gynllun o'r enw Big Bocs Bwyd "Pay As You Feel"; gyda'r cyfraniadau'n cael eu hail fuddsoddi mewn stoc
- Cyflwyno wyau Pasg i Tŷ Catrin yn Rhondda Cynon Taf, sy'n gweithio i gynnig dyfodol gwell i blant lleol drwy faethu
- Cyflwyno 50 wy Pasg, nwyddau groser a deunydd ymolchi i Chester Aid to the Homeless wrth iddynt ddathlu eu hanner can mlwyddiant ac 20 wy Pasg i Fanc Bwyd Pwllheli
- Darparu bwyd i ddigwyddiad SheUltra oedd yn codi arian at elusennau canser menywod
- Cyfrannu tuag at ymgyrch codi arian Clwb Pêl Droed Hen Aur Caerfyrddin / Carmarthen Town Golds Football Club i helpu eu chwaraewyr fynd ar daith
- Cefnogi ymgyrch codi arian Cymdeithas Bad Achub Brenhinol (RNLI) Abersoch gyda napcins a bwyd
- Noddi Cystadleuaeth Gneifio yng Nghlwb Rygbi Pwllheli
- Cyflwyno nwyddau groser i Rali Ffermwyr Ifanc Eryri yn Oriel Plas y Weddw a fynychwyd gan 11 o glybiau rhanbarthol
- Darparu diodydd ar gyfer digwyddiad ail greu cyfnod y Rhufeiniaid yn Park in the Past, Wrecsam
- Rhoi cynhyrchion i'r elusen Nanny Biscuit ar gyfer parti cymunedol i blentyn un oed gyda salwch terfynol
- Cymryd rhan, helpu i oruchwylio a chyflwyno rhodd i Hanner Marathon Pub-to-Pub Bear Inns, Swydd Caer
- Noddi cit clwb pêl droed Windsford United
- Cyflwyno rhodd i ddiwrnod gwobrwyo Coleg Glynllifon
- Noddi Clwb Pêl Droed Aberystwyth
- Cyflwyno bwyd a diod ar gyfer cyrsiau addysg a chyflogaeth ym Mharc Coffa Ynys Angharad, Pontypridd
- Cytuno ar nawdd tair blynedd i Wobrau Twristiaeth Dewch i Ogledd Cymru / Go North Wales

# Llywodraethiant

Rydym bob amser yn ceisio dilyn safonau moesegol uchel, gan ofalu fod pob aelod o staff a'n hymwelwyr yn mwynhau amgylchedd iach a diogel. Caiff yr ymrwymiad hwn ei adlewyrchu yn ansawdd ein cyfleusterau a'n pobl.

I ddiogelu staff a stoc, gosodwyd System Atal Silffoedd Rhag Dymchwel yn ein storfa bwydydd wedi rhewi yng Ngwynedd, lle mae 300 rac, hyd at 6m o uchder. Bydd hyn yn rhwystro difrod damweiniol drwy wneud yn siŵr fod y silffoedd bob amser yn aros yn unionsyth.

Meddai'r Pennaeth Gweithrediadau, Ian Evans: "Drwy ymgorffori mesurau diogelwch blaengar, rydym nid yn unig yn gweithredu'n fwy effeithlon, ond hefyd yn dangos ein hymrwymiad i iechyd a diogelwch pob aelod o'n tîm."

Rydym wedi parhau i fwrw 'mlaen gyda chynllun ehangu gwerth £6 miliwn drwy brynu cwmni cyfanwerthu ffrwythau a llysiau Oren Foods ac agor depo newydd yng Nghaerfyrddin, De Orllewin Cymru.

Hefyd, rydym wedi partneru gyda Grŵp Farrall i ddefnyddio gofod sbâr yn eu warws yn Telford, Swydd Amwythig i'n helpu i gyrraedd marchnadoedd Gorllewin Canoldir Lloegr.

I gefnogi ein gwaith ymhellach, mae gennym restr gynhwysfawr o achrediadau a thystysgrifau pwysig, yn cynnwys y canlynol:

- Un o Ddosbarthwyr Cydnabyddedig y Cleaning & Hygiene Suppliers Association (CHSA) am ddangos yr arferion hylendid gorau oll ar draws ein gweithgareddau ac o fewn ein cadwyni cyflenwi
- Tystysgrif STS Food Safety – i gydnabod ein 50 mlynedd o drefniadau trylwyr a gofalus yn danfon bwydydd wedi eu rhewi
- Lefel Dau Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd, i gydnabod rheolaeth amgylcheddol effeithiol ers 2017
- Darparwr dadansoddiadau maethol, cyngor dietegol a gwybodaeth am alergedd i arlwywyr drwy Erudus
- System Hazard Analysis Critical Control Points (HACCP) – sef pwyntiau rheoli allweddol er mwyn helpu i osgoi peryglon bwyd
- Threat Assessment and Critical Control Points (TACCP) - sef pwyntiau allweddol ar gyfer asesu a rheoli bygythiadau er mwyn amddiffyn bwyd rhag ymyrraeth, difwyniad bwriadol neu lygredd
- Vulnerability Assessment and Critical Control Points (VACCP) – sef pwyntiau rheoli allweddol i amddiffyn rhag i gynnwys bwyd gael ei newid yn y gadwyn gyflenwi am resymau elw ariannol
- Gwobr Efydd Cyfamod y Lluoedd Arfog i gydnabod ein hymrwymiad i gefnogi cymuned y lluoedd arfog





Rydym yn aelod llysgenhadol (ambassador member) o Sero Net Gogledd Cymru / Net Zero North Wales, sy'n ceisio dod â busnesau a sefydliadau allweddol ynghyd i drafod agweddau pwysig ar y daith tuag at ddatgarboneiddio a sero net.

Croesawyd y grŵp hwn ar daith o amgylch ein prif swyddfa a buom ar ymweliad â champws Grŵp Llandrillo Menai ym Mangor.

Roedd yn braf medru dathlu carreg filltir ragorol wrth i'n cyfarwyddwr cyllid, Mike Clishem, gyrraedd chwarter canrif o weithio i Wasanaeth Bwyd Harlech Foodservice, gan ddangos ymrwymiad a gwneud cyfraniad clodwiw i dwf a llwyddiannau'r cwmni dros gyfnod maith.

# Ardal Ddosbarthu a Lleoliad ein Depos

Criccieth,
Caer, Telford,
Merthyr Tudful
a Chaerfyrddin




THE SUNDAY TIMES Best Places to Work 2025 MEDIUM ORGANISATION

ARMED FORCES COVENANT — EMPLOYER RECOGNITION SCHEME — BRONZE AWARD

GEOGRAPHIC ORIGIN UK PROTECTED

The Grocer Gold Awards 2025 FINALIST Regional Wholesaler of the Year

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD — GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

CHSA Accredited Distributor Certification Mark

Nominated for Outstanding Supplier of the Year Award 2025 — LACA AWARDS FOR EXCELLENCE

CERTIFIED SUSTAINABLE SEAFOOD MSC www.msc.org

Finalists... of the Blick Rothenberg Mid-Market Growth Business of the Year Award 2025

CERTIFIED SUSTAINABLE PALM OIL RSPO

THE CATERER SUPPLIER AWARDS 2025 Food Wholesaler of the Year WINNER

RED TRACTOR CERTIFIED STANDARDS




# Wyddech chi?

Dyma rai ffeithiau a ffigyrau trawiadol ynglŷn â'n prosiectau a'n hymrwymiad i wella.

Rydym wedi:

- Cyflwyno £50,000 i amrywiaeth o achosion da, elusennau, ymgyrchoedd a sefydliadau
- Lleihau ein allyriadau CO2e Cwmpas Un, Cwmpas Dau a Chwmpas Tri o 22,818.81 tunnell i 22,726.06
- Lleihau 10% ar dunelli CO2e ein cerbydau HGV
- Arbed 67 tunnell o CO2e oherwydd y ffordd y deliwn â'n prif ffynonellau gwastraff
- Arbed 14 tunnell o CO2e drwy osgoi gyrru gwastraff i'w dirlenwi a sicrhau fod pob gwastraff bwyd yn cael ei ddefnyddio i greu ynni mewn ffordd sy'n arbed defnyddio tanwydd ffosil
- Hyrwyddo iechyd a diogelwch yn effeithiol drwy osod System Atal Silffoedd Rhag Dymchwel yn ein storfa bwydydd rhew yng Ngwynedd lle mae 300 rac, hyd at 6m o uchder

**PRIF SWYDDFA**

Gwasanaeth Bwyd Harlech Foodservice Ltd
Parc Bwyd, Criccieth, Gwynedd, LL52 OLJ

T. 01766 810810
**www.harlech.co.uk**

HARLECH
EST FOODSERVICE 1972
GWASANAETH BWYD